| | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Archwilio Partneriaethau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **19 Rhagfyr 2013** |
| **Aelod Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd** |
| **Teitl:** | **Datblygu Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol i Gymru** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Ceisio barn y Pwyllgor Archwilio ar y cynllun i sefydlu Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol i Gymru, gyda chefnogaeth gan Gydweithredwyr Mabwysiadu Rhanbarthol.

1.2 Ceisio cefnogaeth i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam barhau i weithredu fel yr awdurdod arweiniol ar gyfer Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru.

## 2. Beth yw’r rheswm dros lunio’r adroddiad hwn?

Sicrhau’r Pwyllgor Archwilio bod swyddogaethau statudol y Cyngor mewn perthynas â darparu Gwasanaeth Mabwysiadu yn cael eu bodloni’n llawn, yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau.

## 3. Beth yw'r argymhellion?

Bod y Pwyllgor Archwilio: -

3.1 yn rhoi sylwadau ar gynnwys yr adroddiad hwn a;

3.2 cefnogi'r cynigion ar gyfer cyflawni Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yng Nghymru fel y nodwyd yn adroddiad Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru.

3.3 cefnogi’r cynnig i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam barhau i weithredu fel yr awdurdod arweiniol ar gyfer Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru.

## 4. Manylion am yr adroddiad.

Rhaid i fabwysiadu gael ei weld yng nghyd-destun ehangach cynllunio lleoliadau a sefydlogrwydd ar gyfer plant ac fel rhan o system integredig o wasanaethau ar gyfer diwallu eu hanghenion a hybu eu lles. Mae Gwasanaethau Mabwysiadu yn eu cyfanrwydd yn gymhleth, yn cael eu darparu i ystod eang o ddefnyddwyr gwasanaeth o blant ifanc iawn sy'n cael eu lleoli i’w mabwysiadu i oedolion hŷn sy'n ceisio cael eu hail-uno â'u teuluoedd biolegol.

Mae gofyniad clir bod yn rhaid i blant mewn gofal gael cynlluniau ar gyfer sefydlogrwydd yn eu lle sy'n ystyried yr ystod lawn o opsiynau sefydlogrwydd ac sy'n cael eu rhoi ar waith gyda’r brys priodol.

Bydd y Pwyllgor Archwilio yn ymwybodol bod creu Gwasanaeth Mabwysiadu Genedlaethol yn un o feysydd polisi allweddol Llywodraeth Cymru ac, os caiff ei weithredu, bydd y Mesur Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) yn caniatáu i Weinidogion ragnodi trefniadau gan awdurdodau lleol.

Gan gydweithio'n agos â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), lluniodd ADSS Cymru fodel ymarferol ar gyfer darparu Gwasanaethau Mabwysiadu ar draws Cymru. Mae copi o'r adroddiad hwn ynghlwm yn Atodiad A. Cafodd y model ei gymeradwyo gan y Grŵp Cynghori Arbenigol ar Fabwysiadu a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru. Cytunwyd ar y cynnig amlinellol a ddatblygwyd gan ADSS Cymru mewn egwyddor gan Arweinwyr yn y Cyngor CLlLC ym mis Ebrill.

Yn dilyn hynny, mewn Datganiad Ysgrifenedig ar 25 Ebrill, 2013, cymeradwyodd y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol y cynigion ar gyfer cyflawni Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a datblygu Model Gweithredol ar gyfer darparu gwasanaethau ledled Cymru, fel y'i cyflwynwyd gan ADSS Cymru a CLlLC. Mae copi o'r Datganiad Ysgrifenedig ynghlwm yn Atodiad B.

Mae'r cynigion a amlinellir yn fanwl yn Atodiad A, yn darparu llwybr uchelgeisiol ond realistig ar gyfer creu Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol effeithiol ac ymatebol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau:

- Cyfeiriad newydd ar gyfer darparu Gwasanaethau Mabwysiadu sy'n hynod addas ar gyfer cyd-destun Cymru.
- Gweithrediad amserol o’r gwelliannau sydd eu hangen.
- Cynnydd yng nghyflymder cydweithredu a'r gallu i adeiladu gwasanaethau cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.
- Gostyngiad mewn biwrocratiaeth a symleiddio’r ddarpariaeth o wasanaethau.
- Gwelliant yn hygyrchedd gwasanaeth ar gyfer yr holl randdeiliaid allweddol.
- Cynnal cyfanrwydd hanfodol a chydlyniad rhwng holl elfennau Gwasanaethau Mabwysiadu, er mwyn atal diffyg cymhathu rhwng anghenion plant sydd angen lleoliadau mabwysiadu a'r mabwysiadwyr sy’n cael eu recriwtio.
- Gwelliannau tymor hir a pharhaol i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd mewn rhai elfennau o’r ddarpariaeth gwasanaeth presennol.
- Lle canolog ar gyfer y cyfraniad sylweddol a wneir gan y Sector Gwirfoddol fel cyd-gynhyrchwyr a phartneriaid cyflenwi gwerthfawr.
- Cyfleoedd ar y cyd ar gyfer awdurdodau lleol i ymateb yn effeithiol i bwysau cynyddol o fewn y system ofal.

Bydd y cynnig yn cael ei ategu gan Fframwaith Perfformiad Safonedig Cenedlaethol a fydd yn caniatáu i'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol nodi, adolygu a thynnu sylw at fesurau perfformiad allweddol. Bydd y fframwaith yn gosod trothwyon perfformiad ac egluro disgwyliadau isafswm Llywodraeth Cymru ar gyfer prydlondeb yn y system mabwysiadu, ar gyfer y plentyn a'r darpar fabwysiadwr.

Bydd y **Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol** yn gyfrifol am:

- Sefydlu Bwrdd Cenedlaethol.
- Monitro darparu gwasanaethau yn unol â'r fframwaith perfformiad cenedlaethol.
- Cynhyrchu Adroddiad Blynyddol a chynllun gweithredu.
- Datblygu strategaeth farchnata a chodi ymwybyddiaeth genedlaethol.
- Darparu un pwynt cyswllt i unrhyw un sy'n chwilio am wybodaeth am fabwysiadu.
- Darparu cronfa ddata o wybodaeth.
- Datblygu a chynnal Cofrestr Fabwysiadu Genedlaethol.
- Cyd-drefnu Paneli Mabwysiadu, Aelodau'r Panel, Hyfforddiant Cyn-Cymeradwyo, Gwasanaethau Cefnogi Ôl-Fabwysiadu a darparu Gwasanaeth Penderfynu Adolygiad Annibynnol.
- Gweithredu fel Canolfan Ragoriaeth ar gyfer Mabwysiadu yng Nghymru.

Mae'r model swyddogaethol yn cynnig sefydlu pum **Cydweithredwr Mabwysiadu Rhanbarthol** er mwyn cyflawni swyddogaethau'r Gwasanaeth Cenedlaethol, gan gynnwys:

- Sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth, rheoliadau a'r fframwaith rheoli perfformiad.
- Recriwtio ac asesu darpar fabwysiadwyr.
- Sicrhau cymhathu plant yn briodol.
- Darparu ystod eang o wasanaethau cymorth, gan gynnwys cwnsela rhieni biolegol, mabwysiadau gan lys-riant, gwasanaethau cyfryngol a chyswllt blwch llythyrau.
- Sicrhau bod cysylltiadau effeithiol yn cael eu cynnal gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Plant awdurdodau lleol.

Y pum cydweithredwyr rhanbarthol arfaethedig yw:

- Gogledd Cymru - Wrecsam, Sir y Fflint, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych ac Ynys Môn;
- De Ddwyrain Cymru - Blaenau Gwent, Sir Fynwy, Torfaen, Casnewydd a Chaerffili;
- Gorllewin a Chanolbarth Cymru - Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Phowys;
- Bae'r Gorllewin – Pen y bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe; a
- Canolbarth a De Cymru - Caerdydd, Bro Morgannwg, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf.

Mae'r cydweithredwyr hyn mewn gwahanol gamau datblygiad ar hyn o bryd. Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru wedi bod yn weithredol ers 1 Ebrill 2010. Yn gyffredinol, mae'n gweithredu'n weddol dda, ond rydym yn cynnal adolygiad o wahanol agweddau er mwyn sicrhau ei fod mor effeithiol â phosibl. Bydd yr adolygiad hwn yn canolbwyntio ar ail-siapio a chryfhau trefniadau llywodraethu; strwythur y gwasanaeth a'i leoliad; cryfhau systemau ac arferion a bydd yn llywio datblygiadau'r dyfodol. Bydd hyn hefyd yn cynnwys adolygiad o'r berthynas ariannu a'r sail i hynny yn y dyfodol.

Y bwriad yw y bydd pob un o'r pum Cydweithredwyr Rhanbarthol yn cael eu sefydlu erbyn mis Ebrill 2014.

Yn ogystal, bydd pob **awdurdod lleol** yn cadw cyfrifoldeb am y canlynol:

- Asesu a chynllunio ac adolygu gofal plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.
- Sicrhau bod swyddogaethau Penderfynwr yr Asiantaeth yn cael eu cyflawni.
- Asesu anghenion Cefnogaeth Mabwysiadu plant sydd am gael eu mabwysiadu.
- Cymryd rhan mewn cymhathu a chysylltu plant â mabwysiadwyr.
- Darparu cwnsela i rieni biolegol.
- Gwneud ceisiadau i'r Llysoedd am orchmynion priodol.
- Mynychu Paneli Mabwysiadu lle mae cymhathu arfaethedig yn cael ei ystyried.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'n gyfraniad sylweddol i sicrhau bod plant yn cael eu diogelu a'u galluogi i ddatblygu'n briodol mewn amgylchiadau o sefydlogrwydd.

**6. Faint fydd yn costio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Bydd Grŵp Tasg a Gorffen yn cael ei sefydlu gyda chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, ADSS Cymru, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), Cymdeithas Prydain dros Fabwysiadu a Maethu (BAAF), Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol a phob un o'r pum Cydweithredwyr Rhanbarthol. Y pwrpas fydd cynhyrchu rhaglen newid gadarn ar gyfer gweithredu'r model swyddogaethol.

Cydnabyddir bod angen capasiti Rheoli Rhaglenni i wthio’r newidiadau hyn yn eu blaen mewn modd amserol ac mae'r Dirprwy Weinidog wedi dyfarnu £50k i ADSS Cymru i gefnogi’r gweithrediad.

Cytunwyd ar y cerrig milltir allweddol canlynol:

- Aelodaeth a briff y Grŵp Tasg a Gorffen - Mehefin.
- Nodi’r pum Awdurdod Arweiniol - Mehefin.
- Datblygu fformat Cynllun Gweithredu cyffredin - Gorffennaf.
- Cefnogi Awdurdodau Arweiniol yn eu rôl - Gorffennaf.
- Amlinellu cydrannau busnes ar gyfer isadeiledd y Gwasanaeth Cenedlaethol - Gorffennaf.
- Cynlluniau Gweithredu Rhanbarthol yn eu lle - Awst.

Does dim goblygiadau cynaliadwyedd na newid hinsawdd o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

Caiff gwasanaethau mabwysiadu eu rheoli gan nifer o Reoliadau Statudol manwl a chydnabyddir y bydd angen newidiadau i'r Rheoliadau hyn maes o law. Fodd bynnag, gellir gwneud cynnydd o ran gweithredu'r agweddau allweddol nes daw’r newidiadau gofynnol. Cyn bo unrhyw ofynion deddfwriaethol a allai gael eu cynnwys

yn y Mesur Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru), bydd angen i bob awdurdod lleol wneud ei benderfyniad ei hun ynghylch yr achos dros newid.

Does dim goblygiadau o ran trosedd ac anhrefn yn deillio o'r adroddiad hwn

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?

Does dim materion cyfleoedd cyfartal yn codi o'r adroddiad hwn

Bydd angen adolygu a diwygio polisïau a gweithdrefnau presennol i ymgorffori effaith darparu gwasanaethau mabwysiadu yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gafodd eu cynnal gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?

Mae darparu gwasanaeth mabwysiadu yn gyfrifoldeb ledled y Cyngor. Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei ystyried gan yr Aelod Arweiniol dros Wasanaethau Cymdeithasol

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Dylai'r model gwasanaeth cenedlaethol gael ei fonitro i sicrhau nad yw costau yn cynyddu o'r lefel bresennol o wariant net. Dylai unrhyw gostau ychwanegol sy'n deillio o weinyddu a chynnal y trefniadau newydd gael eu dosbarthu'n briodol rhwng yr awdurdodau sy'n cymryd rhan.

## 10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae'r risgiau fel sy'n berthnasol yn cael eu rheoli drwy drefniadau rheoli Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru a oruchwylir gan Benaethiaid Gwasanaethau Plant ar draws Cymru

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae'r Mesur Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cymru yn amlinellu darpariaethau ar gyfer sefydlu Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ac i awdurdodau lleol wneud trefniadau i sefydlu cydweithredwyr mabwysiadu rhanbarthol.

Mae Erthygl 6 Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi beth yw grymoedd y Pwyllgorau Archwilio mewn perthynas â'r mater hwn.

**Papurau Cefndir**

| | |
|---|---|
| Atodiad A | Cynigion ar gyfer Cyflawni Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yng Nghymru a Datblygu Model Gweithredol - ADSS Cymru, Ebrill 2013. |
| Atodiad B | Datganiad Ysgrifenedig gan y Dirprwy Weinidog - 25 Ebrill, 2013. |

**Swyddog Cyswllt:**
Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Ffôn: 01824 706652